



Protocol Trechu Troseddau Mewn Ysgolion



Canllaw i rieni ar gyfer:

Yr Heddlu'n Cefnogi Ysgolion ag Achosion o
Drosedd ac Anhrefn ar Faes yr Ysgol.

Gall y rheolau hyn helpu'ch plentyn i wneud y dewisiadau cywir
yn y dyfodol.

Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.schoolbeat.org

Diben y daflen hon yw:

- Eich helpu chi, fel rhiant, i ddeall sut y mae'r Heddlu a'ch ysgol yn annog ymddygiad da yn yr ysgol.
- Esbonio sut y mae'r Protocol Trechu Troseddau Mewn Ysgolion, sef cytundeb rhwng yr ysgol a'r heddlu, yn osgoi troseddoli pobl ifainc ac yn cefnogi eich plentyn.
- Dweud wrthy'ch beth sy'n digwydd os yw'ch plentyn yn gysylltiedig â digwyddiad yn yr ysgol a sut y mae'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion yn gysylltiedig.
- Esbonio sut y gall yr ysgol a'r heddlu atal eich plentyn rhyg fynd i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol.

Cyflwyniad

- Mae dysgu sut i ymddwyn yn dda yn rhan bwysig o addysg eich plentyn. Fel arfer, nid yw plant ag ymddygiad gwael yn dysgu'n dda. Mae angen i blant ddeall beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn yn yr ysgol a'r gymdeithas.
- Gall ymddygiad gwael yn yr ysgol effeithio ar ddysgu plentyn, ac weithiau gall beryglu plant eraill a staff.
- Bydd eich Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion yn gysylltiedig â digwyddiadau yn yr ysgol pan amheuir fod trosedd ddifrifol wedi digwydd.
- Fel arfer, ni fydd eich Swyddog Cefnogi Cymunedol Ysgolion yn ymdrin â bwllian a chamymddwyn lefel isel. Dylid ymdrin ag ymddygiad o'r fath yn unol â pholisiau a gweithdrefnau'r ysgol. Dylid ond cynnwys yr Heddlu pan fydd proses yr ysgol wedi'i chwblhau.

'Mae fy mhentyn mewn trafferth yn yr ysgol. Rwy'n credu ei fod/bod wedi cyflawni trosedd. Beth ddylwn i ddisgwyl?'

Fel arfer, ymdrinnir â'ch plentyn drwy bolisi ymddygiad, gwobrwyo a chosbi'r ysgol.

Os ydych yn anfodlon â'r hyn y mae'r ysgol wedi gwneud, mae gennych hawl i apelio:


- I'r Pennaeth
- I'r Bwrdd Llywodraethwyr
- I'r Awdurdod Lleol (ar gyfer eich ardal ysgol)

Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer disgyblu yn yr ysgol. Ar ôl ymchwilio, gall yr ysgol gyfeirio'r mater i'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion, os ydynt yn teimlo bod hynny'n briodol.



Os ydych chi'n poeni am ymddygiad eich plentyn, cysylltwch â'ch ysgol yn gyntaf bob tro.

Pan mae'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion yn gysylltiedig â'r mater, bydd yn penderfynu os ellir ymdrin â'r mater y mae eich plentyn yn gysylltiedig ag ef drwy'r Protocol Trechu Troseddau Mewn Ysgolion. Os felly, bydd yn ymdrin â'r mater y tu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol. Er mwyn gwneud hynny, gall Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion ddefnyddio datrysiad adferol. Mae datrysiadau adferol yn gwneud i'ch plentyn feddwl am ganlyniadau ei ymddygiad a sut y mae wedi effeithio ar eraill. Nid dewis meddal yw hwn. Mae ysgolion wedi canfod y gall helpu i ddatrys problemau ymddygiad gan ei fod yn helpu'r dioddefydd a'r troseddwr.



Os na ellir ymdrin â'r mater drwy Trechu Troseddau Mewn Ysgolion, mae'n debyg y bydd eich plentyn yn mynd mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n bwysig fod eich plentyn yn derbyn triniaeth deg.

Cofiwch fod eich ysgol a'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion yno i sicrhau fod eich plentyn yn cael y profiad dysgu gorau posibl. Mae'r rheolau yno i helpu'ch plentyn i fod yn annibynnol a meddwl am ganlyniadau ei ymddygiad.